Gwnaed yr Offeryn Statudol hwn o ganlyniad i ddiffygion yn O.S. 2018/645 (Cy. 119), O.S. 2024/767 (Cy. 112), O.S. 2012/801 (Cy. 110) ac O.S. 2016/55 (Cy. 25) ac fe'i dyroddir yn rhad ac am ddim i bawb y gwyddys iddynt gael yr Offerynnau Statudol hynny.

This Statutory Instrument has been made in consequence of defects in S.I. 2018/645 (W. 119), S.I. 2024/767 (W. 112), S.I. 2012/801 (W. 110) and in S.I. 2016/55 (W. 25) and is being issued free of charge to all known recipients of those Statutory Instruments.

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

2025 Rhif 815 (Cy. 145)

2025 No. 815 (W. 145)

ANIFEILIAID, CYMRU

ANIMALS, WALES

PYSGODFEYDD MÔR, CYMRU

SEA FISHERIES, WALES

CYNLLUNIO GWLAD A THREF, CYMRU

TOWN AND COUNTRY PLANNING, WALES

Gorchymyn Diwygio Is-ddeddfwriaeth (Maint Glanio Lleiaf a Chywiriadau Amrywiol) (Cymru) 2025

The Amendments to Subordinate Legislation (Minimum Landing Size and Miscellaneous Corrections) (Wales) Order 2025

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)

Mae'r Gorchymyn hwn yn diwygio pedwar Gorchymyn.

Mae Rhan 2 o'r Gorchymyn hwn yn diwygio Gorchymyn Crynoadau Anifeiliaid (Ffioedd) (Cymru) 2018 (O.S. 2018/645) (Cy. 119) ("Gorchymyn 2018").

Mae erthygl 2 yn rhoi Tabl 1 newydd yn lle'r un presennol yn yr Atodlen i Orchymyn 2018 fel nad oes anghysondebau rhwng geiriad y cofnodion yng ngholofn 1 o'r Tabl hwnnw. Gwneir erthygl 2 o dan adran 84(1) o Ddeddf Iechyd Anifeiliaid 1981.

Mae Rhan 3 o'r Gorchymyn hwn yn diwygio Gorchymyn Rheoli a Thrwyddedu Pysgota am Gocos (Ardal Benodedig) (Cymru) 2024 (O.S. 2024/767) (Cy. 112) ("Gorchymyn 2024").

EXPLANATORY NOTE

(This note is not part of the Order)

This Order makes amendments to four Orders.

Part 2 of this Order makes an amendment to the Animal Gatherings (Fees) (Wales) Order 2018 (S.I. 2018/645) (W. 119) ("the 2018 Order").

Article 2 substitutes a new Table 1 into the Schedule to the 2018 Order so as to remove inconsistencies between the wording of the entries in column 1 of that Table. Article 2 is made under section 84(1) of the Animal Health Act 1981.

Part 3 of this Order makes amendments to the Cockle Fishing Management and Permitting (Specified Area) (Wales) Order 2024 (S.I. 2024/767) (W. 112) ("the 2024 Order").

Mae'n mynd i'r afael â gwallau yng Ngorchymyn 2024 ac yn darparu diffiniad diwygiedig o "maint glanio lleiaf". Gwneir diwygiadau yn Rhan 3 o dan adrannau 189(1) a 316(1) o Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009.

It addresses errors in the 2024 Order and provides an amended definition of "minimum landing size". Amendments in Part 3 are made under sections 189(1) and 316(1) of the Marine and Coastal Access Act 2009.

Mae Is-ddeddfau cyn-Bwyllgor Pysgodfeydd Môr Gogledd-orllewin Lloegr a Gogledd Cymru wedi eu cyhoeddi ar www.llyw.cymru/deddfwriaeth-pysgodfa-glannau-gogledd-cymru-gogledd-orllewin-lloegr. Mae Is-ddeddfau cyn-Bwyllgor Pysgodfeydd Môr De Cymru wedi eu cyhoeddi ar www.llyw.cymru/deddfwriaeth-pysgodfeydd-glannau-de-cymru.

The Byelaws of the former North Western and North Wales Sea Fisheries Committee are published on www.gov.wales/north-western-and-north-wales-inshore-fishery-legislation. The Byelaws of the former South Wales Sea Fisheries Committee are published on www.gov.wales/south-wales-inshore-fishery-legislation.

Mae Rhan 4 o'r Gorchymyn hwn yn diwygio Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu (Cymru) 2012 ("Gorchymyn 2012").

Part 4 of this Order makes amendments to the Town and Country Planning (Development Management Procedure) (Wales) Order 2012 ("the 2012 Order").

Mae erthygl 14 yn diwygio paragraff (n) o'r tabl dehongli yn Atodlen 4 i Orchymyn 2012 (ymgyngoriadau cyn rhoi caniatâd) i roi'r geiriau "Gorff Adnoddau Naturiol Cymru" yn lle "Gyfoeth Naturiol Cymru". Gwneir erthygl 14 o dan adrannau 59(1), (2)(b) a (3)(a), a 74(1)(c) o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990.

Article 14 amends paragraph (n) to the interpretation table in Schedule 4 to the 2012 Order (consultations before the grant of permission) to substitute the words "the Natural Resources Body for Wales" for "Natural Resources Wales". Article 14 is made under sections 59(1), (2)(b) and (3)(a), and 74(1)(c) of the Town and Country Planning Act 1990.

Mae Rhan 5 o'r Gorchymyn hwn yn diwygio Gorchymyn Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol (Gweithdrefn) (Cymru) 2016 ("Gorchymyn 2016").

Part 5 of this Order makes amendments to the Developments of National Significance (Procedure) (Wales) Order 2016 ("the 2016 Order").

Mae erthygl 15 yn diwygio paragraff (j) o'r tabl dehongli yn Atodlen 5 i Orchymyn 2016 (dyletswydd i ymgynghori cyn rhoi caniatâd) i roi'r geiriau "Gorff Adnoddau Naturiol Cymru" yn lle "Gyfoeth Naturiol Cymru". Gwneir erthygl 15 o dan adrannau 61Z(8) a (9), a 62R o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990.

Article 15 amends paragraph (j) to the interpretation table in Schedule 5 to the 2016 Order (duty to consult before the grant of permission) to substitute the words "the Natural Resources Body for Wales" for "Natural Resources Wales". Article 15 is made under sections 61Z(8) and (9), and 62R of the Town and Country Planning Act 1990.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Gorchymyn hwn. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd yn angenrheidiol cynnal asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Gorchymyn hwn.

The Welsh Ministers' Code of Practice on the carrying out of Regulatory Impact Assessments was considered in relation to this Order. As a result, it was not considered necessary to carry out a regulatory impact assessment as to the likely costs and benefits of complying with this Order.

2025 Rhif 815 (Cy. 145)

ANIFEILIAID, CYMRU

PYSGODFEYDD MÔR, CYMRU

CYNLLUNIO GWLAD A THREF, CYMRU

Gorchymyn Diwygio Is-ddeddfwriaeth (Maint Glanio Lleiaf a Chywiriadau Amrywiol) (Cymru) 2025

Gwnaed	*6 Gorffennaf 2025*
Gosodwyd gerbron Senedd Cymru	*9 Gorffennaf 2025*
Yn dod i rym	*1 Awst 2025*

CYNNWYS

RHAN 1
Cyflwyniad

1.–3. Enwi a dod i rym

RHAN 2
Diwygio Gorchymyn Crynoadau Anifeiliaid (Ffioedd) (Cymru) 2018

RHAN 3
Diwygio Gorchymyn Rheoli a Thrwyddedu Pysgota am Gocos (Ardal Benodedig) (Cymru) 2024

4.–5. Diwygio Rhan 1 o Orchymyn Rheoli a Thrwyddedu Pysgota am Gocos (Ardal Benodedig) (Cymru) 2024

2025 No. 815 (W. 145)

ANIMALS, WALES

SEA FISHERIES, WALES

TOWN AND COUNTRY PLANNING, WALES

The Amendments to Subordinate Legislation (Minimum Landing Size and Miscellaneous Corrections) (Wales) Order 2025

Made	*6 July 2025*
Laid before Senedd Cymru	*9 July 2025*
Coming into force	*1 August 2025*

CONTENTS

PART 1
Introduction

1.–3. Title and coming into force

PART 2
Amendments to the Animal Gatherings (Fees) (Wales) Order 2018

PART 3
Amendments to the Cockle Fishing Management and Permitting (Specified Area) (Wales) Order 2024

4.–5. Amendments to Part 1 of the Cockle Fishing Management and Permitting (Specified Area) (Wales) Order 2024

6.–9. Diwygio Rhan 3 o Orchymyn Rheoli a Thrwyddedu Pysgota am Gocos (Ardal Benodedig) (Cymru) 2024

10. Diwygio Rhan 4 o Orchymyn Rheoli a Thrwyddedu Pysgota am Gocos (Ardal Benodedig) (Cymru) 2024

11. Diwygio Atodlen 1 (Ardal Benodedig) i Orchymyn Rheoli a Thrwyddedu Pysgota am Gocos (Ardal Benodedig) (Cymru) 2024

12. Diwygio Atodlen 2 (Amodau trwydded) i Orchymyn Rheoli a Thrwyddedu Pysgota am Gocos (Ardal Benodedig) (Cymru) 2024

13. Diwygio Atodlen 3 (Dirymu a diwygio) i Orchymyn Rheoli a Thrwyddedu Pysgota am Gocos (Ardal Benodedig) (Cymru) 2024

RHAN 4

Diwygio Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu) (Cymru) 2012

RHAN 5

Diwygio Gorchymyn Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol (Gweithdrefn) (Cymru) 2016

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Gorchymyn hwn drwy arfer y pwerau a roddir gan—

(a) adrannau 189(1) a 316(1) o Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009(**1**);

6.–9. Amendments to Part 3 of the Cockle Fishing Management and Permitting (Specified Area) (Wales) Order 2024

10. Amendments to Part 4 of the Cockle Fishing Management and Permitting (Specified Area) (Wales) Order 2024

11. Amendments to Schedule 1 (Specified Area) to the Cockle Fishing Management and Permitting (Specified Area) (Wales) Order 2024

12. Amendments to Schedule 2 (Permit conditions) to the Cockle Fishing Management and Permitting (Specified Area) (Wales) Order 2024

13. Amendments to Schedule 3 (Revocations and amendment) to the Cockle Fishing Management and Permitting (Specified Area) (Wales) Order 2024

PART 4

Amendments to the Town and Country Planning (Development Management Procedure) (Wales) Order 2012

PART 5

Amendments to the Developments of National Significance (Procedure) (Wales) Order 2016

The Welsh Ministers make this Order in exercise of the powers conferred by—

(a) sections 189(1) and 316(1) of the Marine and Coastal Access Act 2009(**1**);

(**1**) 2009 p. 23. Diwygiwyd adran 189 gan baragraff 28 o Atodlen 10 i Ddeddf Pysgodfeydd 2020 (p. 22). Disgrifir ymhellach yn adrannau 156 i 158 y ddarpariaeth y caiff yr awdurdod ar gyfer ardal pysgodfeydd a chadwraeth y glannau ei gwneud drwy is-ddeddf o dan adran 155 at y dibenion a nodir yn adrannau 153 a 154.

(**1**) 2009 c. 23. Section 189 was amended by paragraph 28 of Schedule 10 to the Fisheries Act 2020 (c. 22). Provision which the authority for an IFC district may make by byelaw under section 155 for the purposes set out in section 153 and 154, is further described in sections 156 to 158.

(b) adran 84(1) o Ddeddf Iechyd Anifeiliaid 1981(**1**);

(c) adrannau 59(1), (2)(b) a (3)(a)(**2**), 61Z(8) a (9)(**3**), 62R a 74(1)(c)(**4**) o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990(**5**).

RHAN 1

Cyflwyniad

Enwi a dod i rym

1.—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Diwygio Is-ddeddfwriaeth (Maint Glanio Lleiaf a Chywiriadau Amrywiol) (Cymru) 2025.

(2) Daw i rym ar 1 Awst 2025.

(**1**) 1981 p. 22 ("y Ddeddf"). Diffinnir y term "the Ministers" yn adran 86(1)(c). Trosglwyddwyd holl swyddogaethau "the Ministers" o dan adran 84(1) o'r Ddeddf, i'r graddau yr oeddent yn arferadwy o ran Cymru gan Ysgrifennydd Gwladol Cymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672). Trosglwyddwyd swyddogaethau ar y cyd Ysgrifennydd Gwladol yr Alban o ran Cymru, ac Ysgrifennydd Gwladol Cymru, i'r Gweinidog Amaethyddiaeth, Pysgodfeydd a Bwyd gan Orchymyn Trosglwyddo Swyddogaethau (Amaethyddiaeth a Bwyd) 1999 (O.S. 1999/3141). Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Gweinidog Amaethyddiaeth, Pysgodfeydd a Bwyd wedi hynny i'r Ysgrifennydd Gwladol gan Orchymyn y Weinyddiaeth Amaethyddiaeth, Pysgodfeydd a Bwyd (Diddymu) 2002 (O.S. 2002/794). Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol, i'r graddau yr oeddent yn arferadwy o ran Cymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 2004 (O.S. 2004/3044). Yn rhinwedd adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, trosglwyddwyd swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru i Weinidogion Cymru. Yn rhinwedd paragraff 7 o Ran 2 o Atodlen 3 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, trosglwyddir swyddogaethau Gweinidog y Goron yn rhydd rhag y gofyniad am gymeradwyaeth y Trysorlys yn adran 84(1).

(**2**) Diwygiwyd adran 59 gan adrannau 27 a 55 o Ddeddf Cynllunio (Cymru) 2015 (dccc 4) ("Deddf 2015"), a pharagraffau 1 a 3 o Atodlen 4 a pharagraff 5 o Atodlen 7 iddi, a chan adran 1(2) o Ddeddf Twf a Seilwaith 2013 (p. 27), a pharagraffau 1 a 4 o Atodlen 1 iddi.

(**3**) Mewnosodwyd adran 61Z gan adran 17(1) a (2) o Ddeddf 2015.

(**4**) Ceir diwygiadau i adran 74 nad ydynt yn berthnasol i'r offeryn hwn.

(**5**) 1990 p. 8 ("Deddf 1990"). Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan erthygl 2 o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672); gweler y cofnod yn Atodlen 1 ar gyfer Deddf 1990 fel y'i hamnewidiwyd gan O.S. 2000/253. Trosglwyddwyd swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru i Weinidogion Cymru yn rhinwedd adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32), a pharagraffau 30 a 32 o Atodlen 11 iddi. Gweler hefyd adran 59(4) o Ddeddf 1990 sy'n darparu mai ystyr gorchymyn datblygu o ran Cymru yw gorchymyn datblygu a wneir gan Weinidogion Cymru.

(b) section 84(1) of the Animal Health Act 1981(**1**);

(c) sections 59(1), (2)(b) and (3)(a)(**2**), 61Z(8) and (9)(**3**), 62R and 74(1)(c)(**4**) of the Town and Country Planning Act 1990(**5**).

PART 1

Introduction

Title and coming into force

1.—(1) The title of this Order is the Amendments to Subordinate Legislation (Minimum Landing Size and Miscellaneous Corrections) (Wales) Order 2025.

(2) It comes into force on 1 August 2025.

(**1**) 1981 c. 22 ("the Act"). The term "the Ministers" is defined in section 86(1)(c). All functions of "the Ministers" under section 84(1) of the Act were, so far as exercisable in relation to Wales by the Secretary of State for Wales, transferred to the National Assembly for Wales by the National Assembly for Wales (Transfer of Functions) Order 1999 (S.I. 1999/672). The joint functions of the Secretary of State for Scotland in relation to Wales, and the Secretary of State for Wales were transferred to the Minister of Agriculture, Fisheries and Food by the Transfer of Functions (Agriculture and Food) Order 1999 (S.I. 1999/3141). The functions of the Minister for Agriculture, Fisheries and Food were later transferred to the Secretary of State by the Ministry of Agriculture, Fisheries and Food (Dissolution) Order 2002 (S.I. 2002/794). These functions of the Secretary of State were, in so far as exercisable in relation to Wales, transferred to the National Assembly for Wales by the National Assembly for Wales (Transfer of Functions) Order 2004 (S.I. 2004/3044). By virtue of section 162 of, and paragraph 30 of Schedule 11 to, the Government of Wales Act 2006 (c. 32) the functions of the National Assembly for Wales were transferred to the Welsh Ministers. By virtue of paragraph 7 of Part 2 of Schedule 3 to the Government of Wales Act 2006, the functions of the Minister of the Crown are transferred free from the requirement for Treasury approval in section 84(1).

(**2**) Section 59 was amended by section 27 of, and paragraphs 1 and 3 of Schedule 4 to, and section 55 of, and paragraph 5 of Schedule 7 to, the Planning (Wales) Act 2015 (anaw 4) ("the 2015 Act") and by section 1(2) of, and paragraphs 1 and 4 of Schedule 1 to, the Growth and Infrastructure Act 2013 (c. 27)..

(**3**) Section 61Z was inserted by section 17(1) and (2) of the 2015 Act.

(**4**) There are amendments to section 74 which are not relevant to this instrument.

(**5**) 1990 c. 8 ("the 1990 Act"). The functions of the Secretary of State were transferred to the National Assembly for Wales by article 2 of the National Assembly for Wales (Transfer of Functions) Order 1999 (S.I. 1999/672); see the entry in Schedule 1 for the 1990 Act as substituted by S.I. 2000/253. The functions of the National Assembly for Wales were transferred to the Welsh Ministers by virtue of section 162 of, and paragraphs 30 and 32 of Schedule 11 to, the Government of Wales Act 2006 (c. 32). See also section 59(4) of the 1990 Act which provides that a development order in relation to Wales means a development order made by the Welsh Ministers

RHAN 2

Diwygio Gorchymyn Crynoadau Anifeiliaid (Ffioedd) (Cymru) 2018

2. Yng Ngorchymyn Crynoadau Anifeiliaid (Ffioedd) (Cymru) 2018(**1**), yn yr Atodlen, yn lle Tabl 1 rhodder—

"Tabl 1

Ffioedd sy'n daladwy am drwyddedu mangreoedd ar gyfer gwerthiannau anifeiliaid neu ganolfannau casglu nad ydynt wedi eu heithrio o dan erthygl 3(4) neu (5) o'r Gorchymyn hwn

Colofn 1	*Colofn 2*
Gweithgaredd	*Ffi (£) am geisiadau sy'n dod i law, a thrwyddedau a adnewyddir*
Cais am ddyroddi neu (pan fo'r fangre wedi ei newid yn sylfaenol) ddiwygio trwydded ar gyfer mangre werthu neu ganolfan gasglu, pan fo arolygydd milfeddygol yn asesu bod y fangre honno yn peri risg isel o ran clefydau. Mae'r ffi hon yn cynnwys hyd at 90 o funudau o amser arolygu.	433
Cais am ddyroddi neu (pan fo'r fangre wedi ei newid yn sylfaenol) ddiwygio trwydded ar gyfer mangre werthu neu ganolfan gasglu pan fo arolygydd milfeddygol yn asesu bod y fangre honno yn peri mwy na risg isel o ran clefydau. Mae'r ffi hon yn cynnwys hyd at 2 x 90 o funudau o amser arolygu.	780
Ffi adnewyddu trwydded flynyddol ar gyfer mangre werthu neu ganolfan gasglu pan fo arolygydd milfeddygol yn asesu bod y fangre honno yn peri risg isel o ran clefydau, a'i bod yn ofynnol cynnal un ymweliad arolygu yn unig er mwyn penderfynu ar yr adnewyddiad. Mae'r ffi hon yn cynnwys hyd at 75 o funudau o amser arolygu.	387

(**1**) O.S. 2018/645 (Cy. 119), a ddiwygiwyd gan O.S. 2022/1156 (Cy. 239), O.S. 2024/1109 (Cy. 185).

PART 2

Amendments to the Animal Gatherings (Fees) (Wales) Order 2018

2. In the Animal Gatherings (Fees) (Wales) Order 2018(**1**), in the Schedule, for table 1 substitute—

"Table 1

Fees payable for the licensing of premises for animal sales or collection centres that are not exempt under article 3(4) or (5) of this Order

Column 1	*Column 2*
Activity	*Fee (£) for applications received, and renewals undertaken*
Application for the issue or (where the premises have been radically changed) amendment of a licence for sale premises or a collection centre, where such premises are assessed by a veterinary inspector as presenting a low risk of disease. This fee includes up to 90 minutes of inspection time.	433
Application for the issue or (where the premises have been radically changed) amendment of a licence for sale premises or a collection centre, where such premises are assessed by a veterinary inspector as presenting more than a low risk of disease. This fee includes up to 2 x 90 minutes of inspection time.	780
Annual licence renewal fee for sale premises or a collection centre, where such premises are assessed by a veterinary inspector as presenting a low disease risk requiring only one inspection visit for the determination of the renewal. This fee includes up to 75 minutes of inspection time.	387

(**1**) S.I. 2018/645 (W. 119), amended by S.I. 2022/1156 (W. 239), S.I. 2024/1109 (W. 185).

Colofn 1	*Colofn 2*
Ffi adnewyddu trwydded flynyddol ar gyfer mangre werthu neu ganolfan gasglu pan fo arolygydd milfeddygol yn asesu bod y fangre honno yn peri mwy na risg isel o ran clefydau, a'i bod yn ofynnol felly gynnal dau ymweliad arolygu er mwyn penderfynu ar yr adnewyddiad. Mae'r ffi hon yn cynnwys hyd at 2 x 75 o funudau o amser arolygu.	550"

Column 1	*Column 2*
Annual licence renewal fee for sale premises or a collection centre, where such premises are assessed by a veterinary inspector as presenting more than a low disease risk, and therefore requiring two inspection visits for the determination of the renewal. This fee includes up to 2 x 75 minutes of inspection time.	550"

RHAN 3

Diwygio Gorchymyn Rheoli a Thrwyddedu Pysgota am Gocos (Ardal Benodedig) (Cymru) 2024

3. Mae Gorchymyn Rheoli a Thrwyddedu Pysgota am Gocos (Ardal Benodedig) (Cymru) 2024(**1**) wedi ei ddiwygio yn unol ag erthyglau 4 i 13.

Diwygio Rhan 1 o Orchymyn Rheoli a Thrwyddedu Pysgota am Gocos (Ardal Benodedig) (Cymru) 2024

4. Yn erthygl 1 (enwi, cymhwyso a dod i rym), ar ôl paragraff 1(2), mewnosoder—

"(3) Yn yr erthygl hon, mae i "Cymru" yr un ystyr ag a roddir i "Wales" yn adran 158(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006(**2**)."

5.—(1) Yn erthygl 2 (dehongli)—

(2) Yn testun Saesneg, hepgorer ""cockles" ("*cocos*") means shellfish of the type *Cerastoderma edule*;";

(3) Yn y testun Saesneg, ar ôl y diffiniad o "cockle bed" ac o flaen y diffiniad o "environmental assessment" mewnosoder ""cockles" ("*cocos*") means shellfish of the type *Cerastoderma edule*;";

(4) Yn nhestun Saesneg y diffiniad o "harvestable surplus", yn lle "gornifer cocos y gellir eu" rhodder "*gornifer cocos y gellir eu cynaeafu*") means the live weight of cockles that";

(5) Hepgorer "mae i "Cymru" yr un ystyr ag a roddir i "Wales" yn adran 158(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006;";

(**1**) O.S. 2024/767 (Cy. 112).
(**2**) 2006 p. 32.

PART 3

Amendments to the Cockle Fishing Management and Permitting (Specified Area) (Wales) Order 2024

3. The Cockle Fishing Management and Permitting (Specified Area) (Wales) Order 2024(**1**) is amended in accordance with articles 4 to 13.

Amendments to Part 1 of the Cockle Fishing Management and Permitting (Specified Area) (Wales) Order 2024

4. In article 1 (title, application and coming into force), after paragraph 1(2), insert—

"(3) In this article, "Wales" ("*Cymru*") has the same meaning as in section 158(1) of the Government of Wales Act 2006(**2**)."

5.—(1) In article 2 (interpretation)—

(2) In the English language text, omit ""cockles" ("*cocos*") means shellfish of the type *Cerastoderma edule*;";

(3) In the English language text, after the definition of "cockle bed" and before the definition of "environmental assessment" insert ""cockles" ("*cocos*") means shellfish of the type *Cerastoderma edule*;";

(4) In the English language text of the definition of "harvestable surplus", for "gornifer cocos y gellir eu" substitute "*gornifer cocos y gellir eu cynaeafu*") means the live weight of cockles that";

(5) Omit "'Wales' ("*Cymru*") has the same meaning as in section 158(1) Government of Wales Act 2006;";

(**1**) S.I. 2024/767 (W. 112).
(**2**) 2006 c. 32.

(6) Yn y testun Cymraeg hepgorer “mae i “manteisio ar” yr un ystyr ag a roddir i “exploitation” yn adran 153(12) o Ddeddf 2009;”.

(6) In the Welsh language text omit “mae i “manteisio ar” yr un ystyr ag a roddir i “exploitation” yn adran 153(12) o Ddeddf 2009;”.

Diwygio Rhan 3 o Orchymyn Rheoli a Thrwyddedu Pysgota am Gocos (Ardal Benodedig) (Cymru) 2024

Amendments to Part 3 of the Cockle Fishing Management and Permitting (Specified Area) (Wales) Order 2024

6. Yn erthygl 8 (gofyniad am drwydded), yn lle paragraff (3), yn y testun Cymraeg, rhodder “(3) Bydd y drwydded yn galluogi’r deiliad trwydded i bysgota am gocos neu gymryd cocos o welyau cocos sydd ar agor yn ystod y cyfnod trwydded.”

6. In article 8 (requirement for a permit), for paragraph (3), in the Welsh language text, substitute “(3) Bydd y drwydded yn galluogi’r deiliad trwydded i bysgota am gocos neu gymryd cocos o welyau cocos sydd ar agor yn ystod y cyfnod trwydded.”.

7.—(1) Yn erthygl 9 (amodau trwydded)—

(2) Ym mharagraff (4), yn lle “bydd Gweinidogion Cymru yn” rhodder “rhaid i Weinidogion Cymru”;

(3) Yn lle is-baragraff (7)(b), rhodder “(b) ystyr “maint glanio lleiaf” yw’r maint lleiaf o gocosen a gedwir gan fesurydd sydd ag agoriad sgwâr o X o filimetrau o’i fesur ar draws pob ochr o’r sgwâr. “X” yw’r mesuriad a osodir mewn amodau sydd ynghlwm wrth drwydded a ddyroddir o dan erthygl 8 o’r Gorchymyn hwn”.

7.—(1) In article 9 (permit conditions)—

(2) In paragraph (4), for “will” substitute “must”;

(3) For sub-paragraph (7)(b), substitute “(b) “minimum landing size” means the smallest size of cockle that is retained by a gauge having a square opening of X millimetres measured across each side of the square, with “X” being the measurement set in conditions attached to a permit issued under article 8 of this Order”.

8. Yn erthygl 10 (personau â hawlogaeth i gael trwydded), yn lle is-baragraff (1)(a), yn y testun Cymraeg, rhodder “(a) os yw’n 16 oed neu’n hŷn,”.

8. In article 10 (persons entitled to a permit), for sub-paragraph (1)(a), in the Welsh language text, substitute “(a) os yw’n 16 oed neu’n hŷn,”.

9. Yn lle erthygl 12(1) (ffioedd trwydded) rhodder—

> “(1) Mewn perthynas â’r ffi drwydded flynyddol—
>
> (a) bydd i’w phennu gan Weinidogion Cymru,
>
> (b) rhaid iddi fod yn gymwys i bob trwydded, ac
>
> (c) rhaid iddi fod yn gymwys hyd yn oed pan wneir cais am drwydded a phan y’i dyroddir ran o’r ffordd drwy gyfnod trwydded.”

9.—(1) In article 12 (permit fees)—

(2) In sub-paragraph (1)(b), for “will” substitute “must”;

(3) In sub-paragraph (1)(c), for “will” substitute “must”.

Diwygio Rhan 4 o Orchymyn Rheoli a Thrwyddedu Pysgota am Gocos (Ardal Benodedig) (Cymru) 2024

Amendments to Part 4 of the Cockle Fishing Management and Permitting (Specified Area) (Wales) Order 2024

10. Yn erthygl 16 (datganiadau, hysbysiadau a thrwyddedau), yn lle paragraff (2) rhodder “Rhaid i ddatganiadau a hysbysiadau a wneir o dan y Gorchymyn hwn gael eu cyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru a, phan fo’n ymarferol, rhaid i ddatganiadau gael eu gosod mewn lleoliadau amlwg ar y gwely cocos neu gerllaw iddo.”

10. In article 16 (declarations, notices and permits), in paragraph (2), for “will” in both places it occurs, substitute “must”.

Diwygio Atodlen 1 (Ardal Benodedig) i Orchymyn Rheoli a Thrwyddedu Pysgota am Gocos (Ardal Benodedig) (Cymru) 2024

11. Yn Atodlen 1, ym mharagraff 1(1)(c)(i), yn y testun Saesneg, yn lle "High Water Mark or Ordinary Tides" rhodder "High Water Mark of Ordinary Tides".

Diwygio Atodlen 2 (Amodau trwydded) i Orchymyn Rheoli a Thrwyddedu Pysgota am Gocos (Ardal Benodedig) (Cymru) 2024

12. Yn Atodlen 2, ym mharagraff 7 (casglu a didoli cocos), yn y testun Cymraeg, yn lle "ystyrir" rhodder "bernir".

Diwygio Atodlen 3 (Dirymu a diwygio) i Orchymyn Rheoli a Thrwyddedu Pysgota am Gocos (Ardal Benodedig) (Cymru) 2024

13.—(1) Mae Atodlen 3 wedi ei diwygio fel a ganlyn—

(2) Ym mharagraff 3(3), yn lle "the Cockle Management and Permitting (Specified Area) (Wales) Order 2024" rhodder "the Cockle Fishing Management and Permitting (Specified Area) (Wales) Order 2024";

(3) Ym mharagraff 3(4)(c), yn lle "ym mharagraff 2" rhodder "ym mharagraffau 2 a 3, yn y ddau le y mae'n digwydd";

(4) Ym mharagraff 6(1), yn y testun Cymraeg, yn lle "Gogledd-orllewin Lloegr a Gogledd Cymru" rhodder "De Cymru".

Amendments to Schedule 1 (Specified Area) to the Cockle Fishing Management and Permitting (Specified Area) (Wales) Order 2024

11. In Schedule 1, in paragraph 1(1)(c)(i), in the English language text, for "High Water Mark or Ordinary Tides" substitute "High Water Mark of Ordinary Tides".

Amendments to Schedule 2 (Permit conditions) to the Cockle Fishing Management and Permitting (Specified Area) (Wales) Order 2024

12. In Schedule 2, in paragraph 7 (gathering and sorting of cockles), in the Welsh language text, for "ystyrir" substitute "bernir".

Amendments to Schedule 3 (Revocations and amendment) to the Cockle Fishing Management and Permitting (Specified Area) (Wales) Order 2024

13.—(1) Schedule 3 is amended as follows—

(2) In paragraph 3(3), for "the Cockle Management and Permitting (Specified Area) (Wales) Order 2024" substitute "the Cockle Fishing Management and Permitting (Specified Area) (Wales) Order 2024";

(3) In paragraph 3(4)(c), for "in paragraph 2" substitute "in paragraphs 2 and 3, in both places it occurs";

(4) In paragraph 6(1), in the Welsh language text, for "Gogledd-orllewin Lloegr a Gogledd Cymru", substitute "De Cymru".

RHAN 4

Diwygio Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu) (Cymru) 2012

14. —(1) Mae Atodlen 4 i Orchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu) (Cymru) 2012(**1**) wedi ei diwygio fel a ganlyn.

(2) O dan y pennawd "Dehongli'r Tabl", yn y diffiniad o "Parthau Amddiffynedig TAN 15" ym mharagraff (n), yn lle "Gyfoeth Naturiol Cymru" rhodder "Gorff Adnoddau Naturiol Cymru".

PART 4

Amendments to the Town and Country Planning (Development Management Procedure) (Wales) Order 2012

14. —(1) Schedule 4 to the Town and Country Planning (Development Management Procedure) (Wales) Order 2012 (**1**) is amended as follows.

(2) Under the heading "Interpretation of Table", in the definition of "TAN 15 Defended Zones" in paragraph (n), for "Natural Resources Wales" substitute "the Natural Resources Body for Wales".

(**1**) O.S. 2012/801 (Cy. 110). Amnewidiwyd Atodlen 4 gan erthyglau 2 a 5(3) o O.S. 2016/59 (Cy. 29) ac Atodlen 2 iddo ac fe'i diwygiwyd gan O.S. 2025/400 (Cy. 80); ceir diwygiadau eraill nad ydynt yn berthnasol i'r offeryn hwn.

(**1**) S.I. 2012/801 (W. 110). Schedule 4 was substituted by articles 2, 5(3) of, and Schedule 2 to, S.I 2016/59 (W. 29) and amended by S.I 2025/400 (W. 80); there are other amendments which are not relevant to this instrument.

RHAN 5

Diwygio Gorchymyn Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol (Gweithdrefn) (Cymru) 2016

15.—(1) Mae Atodlen 5 i Orchymyn Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol (Gweithdrefn) (Cymru) 2016(**1**) wedi ei diwygio fel a ganlyn.

(2) O dan y pennawd "Dehongli'r Tabl", yn y diffiniad o "Parthau Amddiffynedig TAN 15" ym mharagraff (j), yn lle "Gyfoeth Naturiol" rhodder "Gorff Adnoddau Naturiol Cymru".

PART 5

Amendments to the Developments of National Significance (Procedure) (Wales) Order 2016

15.—(1) Schedule 5 to the Developments of National Significance (Procedure) (Wales) Order 2016 (**1**) is amended as follows.

(2) Under the heading "Interpretation of Table", in the definition of "TAN 15 Defended Zones" in paragraph (j), for "Natural Resources Wales" substitute "the Natural Resources Body for Wales".

Eluned Morgan

Y Prif Weinidog, un o Weinidogion Cymru
6 Gorffennaf 2025

First Minister, one of the Welsh Ministers
6 July 2025

©ⓗHawlfraint y Goron 2025

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y DU gan Y Llyfrfa Cyf dan awdurdod a goruchwyliaeth Saul Nassé, Rheolwr Llyfrfa Ei Fawrhydi ac Argraffydd Deddfau Senedd y Brenin.

© Crown copyright 2025

Printed and published in the UK by The Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Saul Nassé, Controller of His Majesty's Stationery Office and King's Printer of Acts of Parliament.

(**1**) O.S. 2016/55 (Cy. 25). Mewnosodwyd paragraff (j) o'r tabl dehongli yn Atodlen 5 gan erthygl 2(7) o O.S. 2019/290 (Cy. 68) a pharagraffau 1 a 3(b) o Atodlen 3 iddo, ac fe'i diwygiwyd gan O.S. 2025/400 (Cy. 80); ceir diwygiadau eraill nad ydynt yn berthnasol i'r offeryn hwn.

(**1**) S.I. 2016/55 (W. 25). Paragraph (j) of the interpretation to the Table in Schedule 5 was inserted by article 2(7) of, and paragraphs 1 and 3(b) of Schedule 3 to S.I 2019/290 (W. 68) and amended by S.I 2025/400 (W. 80); there are other amendments which are not relevant to this instrument.

ISBN 978-0-348-39709-3

£8.14

http://www.legislation.gov.uk/id/wsi/2025/815